# CYFARFOD PENDERFYNIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR

**DYDD** Mercher, 2 Medi 2020

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** E. Dole (Aelod o’r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
M. Bull, Rheolwr Rhanbarthol - Datblygu Economaidd;
L. Alvarez, Swyddog y Biwro;
A. Nicholas, Swyddog Adfywio Gwledig;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Rhith-Gyfarfod: 2.00yp - 2.40 yp**

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 5ED AWST 2020

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Awst 2020 yn gofnod cywir.**

## 3. CRONFA ADFER CANOL TREFI - TARGEDU BUDDSODDIAD MEWN ADFYWIO

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad ar Lywodraeth Cymru yn codi rhai o'i chyfyngiadau Covid-19 ar gyfer busnesau manwerthu a hamdden a lletygarwch nad ydynt yn hanfodol, lle'r oedd nifer o fusnesau yng nghanol trefi ledled y sir yn wynebu'r heriau o ailagor a gweithredu busnesau o fewn cyfyngiadau canllawiau diwygiedig y llywodraeth. Er mwyn cefnogi'r prif fusnesau hynny yng nghanol trefi ar draws Sir Gaerfyrddin, roedd Llywodraeth Cymru, yn dilyn lobïo, wedi cymeradwyo cais rhanbarthol gan Grŵp Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI) De-orllewin Cymru, drwy'r partner corff arweiniol (Abertawe), i ganiatáu brigdorri dyraniadau TRI i gefnogi adferiad canol trefi. Fel rhan o'r cais hwnnw, cynghorwyd Sir Gaerfyrddin y gellid brigdorri £75k o'i ddyraniad i gefnogi rhoi dyraniad tybiannol o £25k fesul tref ar gyfer canol tair prif dref y sir (Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli).

Wedyn rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i baramedrau/canllawiau a phrosesau'r cynllun a sut y byddai'n gweithio. Os caiff y cynllun ei fabwysiadu, y llwybrau darparu a ffefrir i sicrhau'r gwerth gorau am arian, tra'n sicrhau perchnogaeth/cefnogaeth leol/rheolaeth leol, cyflawniad amserol a rhoi ymyriad cydgysylltiedig i bob un o'r trefi fyddai:

Caerfyrddin – Cais ar y Cyd yn cael ei ddatblygu rhwng Cyngor Tref Caerfyrddin a Chais Caerfyrddin;

Llanelli - Cais ar y Cyd rhwng Cyngor Tref Llanelli a Chais Llanelli

Rhydaman – Cais cyflawni uniongyrchol yn cael ei ddatblygu gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar y cyd â Chyngor Tref Rhydaman a thasglu i'w gyflwyno naill ai gan Gyngor Sir Caerfyrddin neu gyfuniad o Gyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Tref Rhydaman.

Oherwydd bod brys i gyflawni, ar ôl cael cymeradwyaeth y Panel Economaidd, byddai angen ystyried a ddylid caniatáu i ymgeiswyr fwrw ymlaen â phrosiectau tra cheisid cymeradwyaeth wleidyddol ffurfiol.

**PENDERFYNWYD**

**3.1 derbyn cynnig Llywodraeth Cymru i frigdorri £75k o ddyraniad cyllid TRI i ddarparu Cronfa Adfer yng Nghanol y Prif Drefi;**

**3.2 cytuno ar y prosesau a'r ffurflenni arfaethedig i'w defnyddio i ddarparu'r gronfa;**

**3.3 cytuno ar y llwybrau a ffefrir ar gyfer darparu;**

**3.4 caniatáu i gyfranogwyr fwrw ymlaen, ar eu risg eu hunain, â chyflawni prosiectau tra cheisid cymeradwyaeth ffurfiol;**

**3.5 Os bydd yn ofynnol i geisiadau gael eu cyflwyno'n uniongyrchol gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn cytuno i ariannu'r dyraniad cyfalaf gofynnol yn unol â'r gyfradd ymyrraeth ofynnol, byddai cyllid ar gael o'r Gronfa Prosiect Strategol Trawsnewid.**

## 4. CRONFA TARGEDU BUDDSODDIAD MEWN ADFYWIO ADFER CANOL TREFI

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i dri chais am Grant Adfer Menter Adfywio wedi'i Thargedu at Ganol Trefi, fel oedd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD bod y ceisiadau canlynol am Grant Adfer Menter Adfywio wedi'i Thargedu at Ganol Trefi yn cael eu cymeradwyo yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol a'r rhai a bennwyd yn yr adroddiad.**

| Yr Ymgeisydd | Y Dyfarniad |
|---|---|
| Cyngor Tref Caerfyrddin a Chais Caerfyrddin | £25,000.00 |
| Cyngor Tref Rhydaman a Chyngor Sir Caerfyrddin | £25,000.00 |
| Ymlaen Llanelli a Chyngor Tref Llanelli | £25,000.00 |

## 5. CYMORTH ARIANNOL O'R CRONFEYDD GRANTIAU CANLYNOL: CRONFA'R DEGWM

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais canlynol am gymorth o Gronfa'r Degwm yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad.**

| Cronfa'r Degwm | | |
|---|---|---|
| **Cyf.** | **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| WCF-20-04 | San Mihangel a'r Holl Angylion, Rhydaman | £2,657.00 |

## 6. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio)**

**(Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**7. CYMORTH ARIANNOL GAN RAGLEN ARFOR**

**Ar ôl cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati yng nghofnod rhif 6 uchod, beidio â rhoi cyhoeddusrwydd i gynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr Awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad o dan Ddeddf 1972 mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r person a'r busnesau a enwir yn yr adroddiad dan anfantais annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyr masnachol.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried ceisiadau am gymorth o Gronfa ARFOR.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa ARFOR yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| **Cronfa Grant Rhaglen ARFOR** | | |
|---|---|---|
| **Cyf.** | **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| AG4-02 | TIQI | £20,000.00 |
| AG4-03 | Swper Box CIC | £15,126.60 |
| AG4-06 | Cegin Lean Kitchen Cyf | £8,892.00 |
| AG4-07 | Pitchfork and Provision | £20,000.00 |
| AG4-08 | Llaeth Derlwyn | £10,844.86 |
| AG4-09 | JK Lewis a'i Fab | £11,828.39 |

____________________________ ____________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**